

YN YMCHWILIAD COVID-19 Y DU

Gerbron y Gwir Anrh. Y Farwnes Hallett, D.B.E

MODIWL 3

(AIL WRANDAWIAD RHAGARWEINIOL (27 MEDI 2023))

NODYN LLYWODRAETH CYMRU

Cyflwyniad

- Yn unol â'i hymrwymiad ar ddechrau Modiwl 3, mae Llywodraeth Cymru wedi cydweithredu'n llawn gyda'r Ymchwiliad. Diben y Nodyn hwn yw crynhoi'r gwaith y mae Llywodraeth Cymru wedi ei wneud hyd yma mewn perthynas â Modiwl 3, yn ogystal â Modiwlau eraill a gynhelir ar yr un pryd.

Modiwl 3

- Mae Llywodraeth Cymru wedi cael dau gais rheol 9: cyfeiriwyd y cyntaf at ei Grŵp Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ac anfonwyd yr ail at Brif Swyddog Meddygol Cymru. Roedd pwnc y ddau gais yn eang ac roedd y sylwedd yn gymhleth iawn, ond darparwyd datganiadau manwl iawn mewn ymateb i'r ceisiadau ac yn unol â'r dyddiadau terfyn a gytunwyd gyda'r Ymchwiliad. Roedd datgeliad sylweddol yn cydfynd â'r datganiadau.
- I gynorthwyo'r Ymchwiliad, y cyfranogwyr craidd a'r cyhoedd yn ehangach, mae Llywodraeth Cymru hefyd wedi paratoi dogfen, a gytunwyd gyda chynrychiolwyr cyrff y GIG yng Nghymru, sy'n crynhoi strwythur y GIG yng Nghymru.

Modiwlau eraill

4. Nid yw'r gwaith manwl i ymateb i geisiadau manwl yr Ymchwiliad am dystiolaeth ym Modiwl 3 wedi'i wneud mewn gwagle. Mae Llywodraeth Cymru hefyd yn gyfranogwr craidd mewn pedwar Modiwl arall sef, Modiwl 1 (parodrwydd), Modiwlau 2 a 2B (gwneud penderfyniadau craidd a llywodraethu gwleidyddol y DU a Chymru, yn y drefn honno) a Modiwl 4 (brechlynnau, therapiwteg a thriniaethau gwrthfeirrol).
 - (a) Modiwl 1: mae'r gwrandawriadau lle rhoddodd pum tyst o Lywodraeth Cymru (gan gynnwys y Prif Weinidog) dystiolaeth, wedi dod i ben yn ddiweddar.
 - (b) Modiwl 2: mae Llywodraeth Cymru wedi cael dau gais rheol 9. Mae un o'r rhain wedi ei ateb a'r llall wrthi'n cael ei ateb.
 - (c) Modiwl 2B: mae Llywodraeth Cymru wedi cael oddeutu 70 o geisiadau rheol 9 sydd naill ai wedi eu hateb neu wrthi'n cael eu hateb.
 - (d) Modiwl 4: mae Llywodraeth Cymru wedi cael un cais rheol 9, nid yw'r dyddiad terfyn ar gyfer ymateb wedi pasio eto.
 - (e) Modiwl 5: mae Llywodraeth Cymru wedi darparu rhywfaint o wybodaeth i gynorthwyo'r Modiwl yn ei waith, cyn cael cais rheol 9.
5. Cafwyd datgeliad sylweddol yn ogystal â'r ymatebion rheol 9.
6. Bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i gynorthwyo gydag ymholiadau'r Ymchwiliad.

Dyddiedig 12 Medi 2023